mewnprint
CYLCHLYTHYR I'R DIWYDIANT CYHOEDDI LLYFRAU YNG NGHYMRU
CYNGOR LLYFRAU CYMRU
RHAGFYR 2002 | RHIF 28

Cyflwyniad

Unwaith eto mae'r rhifyn yma o **Mewn Print** yn cyfeirio at nifer o ddatblygiadau pwysig yn y fasnach lyfrau yng Nghymru. A ninnau o fewn ychydig wythnosau i'r Nadolig, y mae atodiadau llyfrau'r Cyngor Llyfrau wedi eu cyhoeddi a'u dosbarthu. Fe welir hefyd y bydd gweithgor a sefydlir gan y Cyngor yn mynd ati dros y misoedd nesaf i ddechrau paratoi Strategaeth Farchnata a fydd yn cwmpasu gwaith y sector cyfan.

Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Cymru yn Frankfurt

Bu'r Cyngor Llyfrau yn arddangos dros 60 o lyfrau gan nifer o gyhoeddwyr o Gymru yn Ffair Lyfrau Frankfurt yn ddiweddar, a dywedodd Bridget Shine, Swyddog Marchnata Dramor y Cyngor Llyfrau, eu bod wedi cael ymateb hynod o dda yno.

'Roedd yn braf gweld y diddordeb gan gyhoeddwyr tramor mewn llyfrau o Gymru', meddai Bridget.

'Mae'n gyfle gwych hefyd i wneud cysylltiadau ac i gael blas rhyngwladol o'r byd cyhoeddi.'

Cysylltu â'r Cyfeillion

Mae'r pecyn diweddaraf o wybodaeth am y fasnach lyfrau yng Nghymru wedi ei ddosbarthu i'r Cyfeillion. Yn ogystal â thocyn mantais ar gyfer prynu llyfr o'u dewis, rhestrau llyfrau ac adolygiadau, a chatalogau'r cyhoeddwyr, mae'r pecyn yn cynnwys y rhifyn cyfredol o'r cylchlythyr **Y Cyfaill**.

Wedi ei olygu gan Lyn Lewis Dafis, y mae'r cylchgrawn yn cynnwys erthygl ar y grefft o addasu nofelau ar gyfer y teledu, rhestr o hoff lyfrau Dafydd Morgan Lewis o Aberystwyth, a gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf yn y Cyngor Llyfrau.

Atodiadau'r Nadolig

Y mae'r Cyngor Llyfrau wedi cynhyrchu dau atodiad lliwgar eto eleni i roi sylw i'r llyfrau a gyhoeddir ar gyfer y farchnad Nadolig. Fe gyhoeddwyd 80,000 o'r atodiad **Gwledd y Nadolig**, ac y maent wedi eu dosbarthu'n helaeth drwy rwydwaith y papurau bro. Rydym hefyd wedi sicrhau bod copïau wedi eu dosbarthu i'r siopau llyfrau a'r llyfrgelloedd.

'Mae'r atodiad 16 tudalen yn rhoi cyflwyniad gwych i'r llyfrau sydd ar gael yn y siopau,' meddai Phil Davies, Pennaeth Adran Farchnata'r Cyngor Llyfrau. 'Llwyddwyd i'w gyhoeddi mewn da bryd eleni a hyderwn y bydd yn arwain at werthiant sylweddol o hyn i'r Nadolig. Rydym yn ddiolchgar i'r cyhoeddwyr a'r llyfrwerthwyr sy'n hysbysebu yn **Gwledd y Nadolig** am eu cefnogaeth.'

Ar yr ochr Saesneg, mae'r atodiad **Books from Wales** yn cael ei ddosbarthu gyda'r **Western Mail**, a bu'n bosib cynyddu nifer y tudalennau i 12 eleni yn dilyn ymateb gwych gan y cyhoeddwyr.

Cynhadledd Llyfrau Plant

Roedd y Gynhadledd Llyfrau Plant yn llwyddiant arbennig eleni gyda chroeso rhyngwladol yn disgwyl y cynadleddwyr yn Aberystwyth.

Gan mai 'Croesi'r Ffiniau' oedd y thema eleni, yr oedd yn briodol mai Beverly Naidoo, sy'n hanu o Dde Affrica, oedd yn traddodi'r ddarlith agoriadol. Fe gafwyd sgwrs ysbrydoledig ganddi yn sôn am ei bywyd a'i gwaith.

I ddilyn y thema, cafwyd cyflwyniad gan Robert Dunbar a Grainne Darlington o Iwerddon, yn sôn am eu gwaith yn cyflwyno llyfrau stori-a-llun o Ewrop. Bu Chris Stephens hefyd yn esbonio fel yr oedd yn defnyddio yr un llyfrau ym Mhenfro.

Jenny Randerson (ail o'r chwith) gyda enillwyr Gwobrau Tir Na n-Og

Cafwyd cyfraniadau hynod ddiddorol hefyd gan Tudur Dylan, Einir Jones ac Aled Lewis Evans.

Yn ystod y gynhadledd cafwyd cwmni Jenny Randerson, Gweinidog Diwylliant y Cynulliad, yn ystod y seremoni i gyflwyno gwobrau Gwobr Tir na n-Og 2002.

Llyfrau ar y Sgrin

I ategu'r atodiadau mae'r Cyngor wedi trefnu cyfres o hysbysebion a fydd yn ymddangos ar y teledu yn ystod mis Rhagfyr.

Dyma deitlau'r llyfrau Cymraeg fydd yn cael eu hyrwyddo:

Hysbyseb Cymraeg (Oedolion) (1)
1. Tewach na Dŵr
Dylan Jones, Gwasg Gomer
2. Pan Oeddwn Fachgen
Mihangel Morgan, Y Lolfa
3. Cefn Gwlad
Dai Jones, Gwasg Gwynedd
4. Meical Ddrwg o Dwll y Mwg
Mici Plwm, Gwasg Gwynedd
5. Beti a'i Phobl
gol. Ioan Roberts, Carreg Gwalch
6. Morwyr y Cilie
Jon Meirion Jones, Cyhoeddiadau Barddas

Hysbyseb Cymraeg Oedolion (2)
1. Byd Bethan
Bethan Gwanas, Gwasg Gomer
2. Iancs, Conshis a Sbam
gol. Leigh Verill-Rhys, Honno
3. Y Weledigaeth Geltaidd
John Meirion, Morris Y Lolfa
4. Cân Dros Gymru
Dafydd Iwan, Gwasg Gwynedd
5. Cofion Cynnes
Lyn Ebenezer, Carreg Gwalch
6. Owain Glyndŵr Trwy Ras Duw, Tywysog Cymru
R.R. Davies, Y Lolfa

Hysbyseb Cymraeg (Plant)
1. Cyfres Sali Mali: Y Model Perffaith
Siân Lewis, C.L.C.
2. Poenau Penalti
addas. Dylan Williams, C.L.C.
3. Driblwr Disglair
addas. Dylan Williams, C.L.C.
4. Charlie a'r Ffatri Siocled
addas. Elin Meek, Rily Piblications
5. Anrhegion Nadolig Guto a Gwyn
addas. Helen E. Davies, Gwasg Gomer
6. Syniad Da Iawn 2
gol. Heledd Jones, Carreg Gwalch
7. Help, Mae 'na Hipo yn y Cwstard!
Sonia Edwards, Gwasg Gwynedd

Hybu Cymru Dramor

Wedi trafodaethau diweddar rhwng y ddau gorff, bydd y Cyngor Llyfrau a'r Cyngor Prydeinig yn cyhoeddi taflen ar y cyd, dan y teitl **Books from Wales Autumn 2002**, i'w gynhyrchu dan adain y Cynllun Ymestyn.

Dosberthir y daflen i holl swyddfeydd y Cyngor Prydeinig ar hyd a lled y byd, yn ogystal ag i lyfrwerthwyr, llyfrgelloedd, sefydliadau ac unigolion yng Nghymru.

Bydd y daflen yn cyfeirio at oddeutu 90 o deitlau Saesneg o ddiddordeb i Gymru gydag adrannau ar wleidyddiaeth a chymdeithas, hanes, pobl, diwylliant a llenyddiaeth.

Cyn y Nadolig mae'r Cynllun Ymestyn hefyd yn gobeithio cynhyrchu taflen ddwyieithog o deitlau coginio.

Gwerthu drwy gwales

Fel y gwyddys, mae ymateb ffafriol iawn wedi bod i wefan gwales.com fel ffordd hwylus o gyflwyno gwybodaeth am lyfrau, ond y mae llawer o'r farn nad yw mor llwyddiannus fel cyfrwng i werthu llyfrau.

Un o argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cynulliad ar Gyhoeddi oedd bod y drefn o archebu yn cael ei symleiddio er mwyn caniatáu i gwsmeriaid archebu'n uniongyrchol oddi ar y wefan.

Mae'r Cyngor Llyfrau yn y broses o ymgynghori gyda'r llyfrwerthwyr ar y ffordd orau i weithredu hyn, gan barchu rôl holl bwysig y llyfrwerthwyr yn hybu'r fasnach lyfrau.

Fel rhan o'r datblygiad hwn mae'r Cyngor Llyfrau hefyd wedi sicrhau cyllid i gynorthwyo siopau llyfrau bychain, annibynnol a hyderwn y bydd y cyfan hyn yn cryfhau'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru.

Strategaeth Farchnata

Yn dilyn argymhelliad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gyhoeddi a sefydlwyd gan y Gweinidog Diwylliant, fe fydd strategaeth farchnata gytûn yn cael ei pharatoi ar gyfer y fasnach lyfrau yng Nghymru.

'Y bwriad yw llunio dogfen fydd yn nodi'r her sy'n wynebu'r byd cyhoeddi yng Nghymru,' meddai Phil Davies ar ran y Cyngor Llyfrau, 'ac fe fydd yna gyfle i bawb o fewn y diwydiant gyflwyno eu syniadau.'

Paratoi'r strategaeth hon fydd un o'r prif dasgau y disgwylir i'r Cyngor Llyfrau ymgymryd â hi yn ystod y flwyddyn nesaf, ac mae Panel Marchnata'r Cyngor, dan gadeiryddiaeth Richard Houdmont o Wasg y Brifysgol, eisoes wedi sefydlu gweithgor sy'n cynrychioli pob agwedd o'r fasnach i lunio'r drafft cyntaf.

Bydd proses ymgynghori drylwyr yn dilyn, cyn mynd ati i lunio'r fersiwn terfynol.

Diwrnod y Llyfr

Yn dilyn y darlithoedd llwyddiannus sydd wedi eu traddodi fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y mae'r pwyllgor llywio wrthi'n paratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf. Emyr Humphreys sydd wedi cael ei wahodd i draddodi'r brif ddarlith a chynhelir honno yn yr Wyddgrug. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf o **Mewn Print**.

PENODIADAU

Swyddog Gwybodaeth Newydd

Mae Nia Mererid Morgan wedi ei phenodi yn Swyddog Gwybodaeth gyda'r Cyngor Llyfrau, a hi fydd yng ngofal casglu a dosbarthu'r holl wybodaeth am y llyfrau a gyhoeddir.

Mae Nia yn enedigol o Nebo ger Llannon, Ceredigion, a graddiodd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Gogledd Cymru, Bangor, cyn dilyn cwrs pellach mewn Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth. Mae'n ymuno â'r Cyngor ar ôl bod yn gweithio i Gyngor Gwynedd fel Rheolwr Datblygu'r We.

Swyddog Llenyddiaeth Saesneg

Yn dilyn penodi Helena O'Sullivan yn Rheolwr Siop Lyfrau a Nwyddau y Llyfrgell Genedlaethol, y mae Dominic Williams wedi ei benodi dan y Cynllun Cynrychiolaeth i'w holynu. Mae Dominic yn hen gyfarwydd â'r byd llyfrau gan iddo fod ar staff siop lyfrau Ottakar's, Caerfyrddin, am beth amser.

Mae'r swydd arbennig hon yn un a drefnir ar y cyd rhwng y Cyngor Llyfrau a Literary Publishers (Wales) ac fe fydd Dominic yn ymweld â siopau ledled Cymru i hyrwyddo llyfrau Saesneg o Gymru. Noddir y cynllun gan Gyngor y Celfyddydau.

Cynrychiolydd

Y mae'r Cyngor Llyfrau yn dymuno'n dda i Richard Emms sydd yn gadael ei swydd fel cynrychiolydd ac wedi ei benodi'n rheolwr ar siop lyfrau CBAC yng Nghaerdydd. Gobeithiwn benodi olynydd i Richard yn fuan.

Cynorthwy-ydd Gweinyddol

Penodwyd Jacqueline Cameron o Dregaron yn Gynorthwy-ydd Gweinyddol yng Nghanolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau, a bydd hi'n gyfrifol am waith y tîm sydd yn delio ag archebion.

Ffair Lyfrau Llundain

NODYN I'R DYDDIADUR Cynhelir Ffair Lyfrau Llundain y flwyddyn nesaf ar 16–18 Mawrth yn Neuadd Olympia. Bydd y Cyngor Llyfrau yn trefnu stondin yno yn ôl yr arfer.

PWYNT CYSWLLT

Bydd y rhifyn nesaf o *Mewn Print* yn ymddangos ganol Chwefror. Dylai unrhyw wybodaeth i'w chynnwys ynddogael ei hanfon erbyn canol Ionawr at: **Elwyn Jones, Cyngor Llyfrau Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB. E-bost: elwyn.jones@cllc.org.uk**
Gellir darllen y rhifyn hwn o *Mewn Print* ar y we: **www.cllc.org.uk**